

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Anghenion Addysgol Arbennig

Sut i wneud apêl Canllaw i rieni

Cyfeiriad:

**TAAAC
Adeiladau Llywodraeth
Heol Spa Ddwyrain
Llandrindod
Powys, LD1 5HA**

E-bost: tribunal.enquiries@llyw.cymru

Gwefan: <https://tribiwnlysanghenionaddysgolarbennig.llyw.cymru/>

Llinell Gymorth: 0300 025 9800

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

Ynghylch y cyfarwyddyd hwn

Nod y canllaw hwn yw eich arwain chi trwy'r broses apelio gyda Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW). Mae'r canllaw hwn yn egluro'r broses apelio. Ceir ynddo ddisgrifiad o bob cam yn y broses. Clercod y Tribiwnlys yw'r enw a roddir ar y staff sy'n prosesu apelïadau trwy swyddfa'r Tribiwnlys. Dyma'r unigolion a fydd yn ymdrin â'ch llythyrau, galwadau ffôn a'ch ymholiadau ynghylch gweinyddu eich apêl. **Ni allant roi cyngor cyfreithiol.**

Mae'r canllaw hwn yn trafod sut i wneud apêl. Ni all ddweud wrthyich pa mor debygol ydych chi o lwyddo. Bydd Clercod y Tribiwnlys yn hapus i ateb ymholiadau ynghylch gweinyddu eich apêl wrth iddo fynd rhagddo ond ni allant roi barn ichi a ydych chi'n debygol o ennill neu golli, ac ni allant ddweud wrthyich ychwaith a ddylech gymryd cam penodol ai peidio.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer rhieni sydd am apelio i TAAAC.

Gallai'r canllaw hwn hefyd fod yn ddefnyddiol i blant sy'n dymuno gwneud eu hapêl eu hunain ac i'w cyfaill achos os oes ganddynt un. Os hoffech gael gwybod mwy am sut y gall plant wneud eu hapêl eu hunain, gofynnwch i ni am gopi o'n **Pecyn Gwybodaeth a'r Ffurflenni i Blant, Rhieni a Chyfeillion Achos.**

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at y ffurflen apelio y bydd rhaid ichi ei llenwi os byddwch am gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys. Mae'r ffurflen i'w chael ar ein gwefan neu gallwch wneud cais am gopi wedi'i argraffu.

Gwybodaeth am TAAAC

Tribiwnlys yw TAAAC. Yn TAAAC rydym yn clywed ac yn penderfynu apelïadau am blant ag anghenion addysgol arbennig. Gwneir apelïadau gan rieni ac maent yn erbyn penderfyniadau penodol a wnaed gan Awdurdodau Lleol. Mae TAAAC yn annibynnol ar y llywodraeth ac Awdurdodau Lleol ac mae ein penderfyniadau yn rhwymol yn gyfreithiol.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Adnoddau gwybodaeth

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, Llywodraeth Cymru, rhifyn 2004.
Addysg, Cymru, Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Deddf Addysg 1996, Pennod 56

Yr amcan Gor-redol a'r Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Amcan pwysicaf y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'n ddisgwyliad gan y Tribiwnlys y bydd rhieni, cynrychiolwyr, swyddogion Awdurdodau Lleol a

chyrrff cyfrifol, yn helpu I hybu'r amcan gor-redol drwy gydweithio â'i gilydd a'r Tribiwnlys er
myn symud ymlaen gyda'r apêl neu'r cais.

Cynnwys

Cam 1 – Penderfynu a ddylid gwneud apêl	5
Cam 2 – gwneud apêl	8
Cam 3 – wedi inni dderbyn eich Apêl	12
Cam 4 – mynd i'r gwrandawriad	14
Cam 5 – penderfyniad y Tribiwnlys	16
Cannllaw cyflym i brif gamau'r apêl	18

Cam 1 - Penderfynu a ddylid gwneud apêl

Beth alla'i apelio yn ei gylch?

Penderfyniadau ynghylch asesiadau statudol ac ailasesu

Gwallwch apelio os yw'r Awdurdod Lleol:

- yn gwrthod cynnal asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig eich plentyn, yn dilyn cais gennych chi neu gan ysgol eich plentyn, neu
- yn gwrthod ailasesu anghenion addysgol arbennig eich plentyn yn dilyn cais gennych chi neu gan ysgol eich plentyn; ar yr amod nad yw'r awdurdod lleol wedi gwneud asesiad newydd am o leiaf chwe

Penderfyniadau am wneud a dileu datganiadau o anghenion addysgol arbennig

Gallwch apelio os yw'r Awdurdod Lleol:

- yn gwrthod gwneud datganiad o anghenion addysgol arbennig eich plentyn, ar ôl asesiad statudol, neu
- yn penderfynu peidio â chynnal (yn penderfynu dileu) datganiad eich plentyn.

Penderfyniadau am gynnwys y datganiad

Gallwch apelio os yw'r Awdurdod Lleol:

- Yn gwrthod newid yr ysgol a enwir yn natganiad eich plenty, os yw'r datganiad yn flwydd oed o leiaf, ac na waned cais blaenorol yn ystod y 12 mis diwethaf (gallwch ofyn am ysgol sy'n cael ei hariannu gan awdurdod lleol yn unig). Mae hyn wedi'i gyfyngu i'r un math o ysgol â'r ysgol a enwir yn y datganiad ac nid yw'n bosibl gofyn i ni newid rhannau 2 neu 3 y datganiad, neu
- mae'n penderfynu peidio â newid y datganiad ar ôl ailasesu eich plentyn, neu
- mae wedi gwneud datganiad, neu wedi newid datganiad blaenorol, ac rydych yn anghytuno ag un neu fwy o'r canlynol:
 - y rhan sy'n disgrifio anghenion addysgol arbennig eich plenty (rhan 2),
 - y rhan sy'n nodi'r ddarpariaeth addysgol arbennig (help) y mae'r Awdurdod Lleol yn credu y dylai eich plentyn ei dderbyn (rhan 3),
 - yr ysgol neu'r math o ysgol a enwir yn y datganiad (rhan 4),
 - nad yw'r Awdurdod Lleol yn enwi ysgol (rhan 4).

A oes unrhyw faterion na allai TAAAC ymdrin â nhw?

Ni allwn ymdrin â'r canlynol:

- yr Awdurdod Lleol yn penderfynu peidio â diwygio'r datganiad ar ôl adolygiad blynyddol,

- y ffordd y cyflawnodd yr Awdurdod Lleol yr asesiad, neu faint o amser a gymerodd,
- sut y mae'r Awdurdod Lleol neu'r ysgol yn trefnu i ddarparu'r cymorth a nodir yn natganiad eich plentyn,
- y ffordd y mae'r ysgol yn diwallu anghenion eich plentyn ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy,
- y disgrifiad, yn rhannau 5 a 6 y datganiad, anghenion anaddysgol eich plentyn neu sut y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu bodloni'r anghenion hynny.

Pa benderfyniadau y gall TAAAC eu gwneud?

Os bydd y Tribiwnlys yn cytuno gydag apêl mae ganddo'r pŵer i wneud Gorchymyn. Bydd y Gorchymyn yn cael ei ysgrifennu ym mhenderfyniad y Tribiwnlys.

Yn dibynnu ar y math o apêl gallai Gorchymyn fod yn un neu fwy o'r canlynol:

- i gynnal asesiad neu ailasesiad,
- i wneud datganiad,
- i newid y datganiad,
- i newid yr ysgol a enwir yn unol â dymuniadau'r rhieni,
- i barhau datganiad,
- i ddileu (rhoi'r gorau i gynnal) datganiad.

Os nad yw TAAAC yn cytuno â'r apêl, bydd yn ei gwrthod, gan ei dwyn I ben.

Anfonir copi o'n penderfyniad at y rhiant, eu cynrychiolydd os oes ganddynt un, ac at yr Awdurdod Lleol a'u cynrychiolydd, os oes ganddynt un.

Pan fo plentyn yn barti i apêl, anfonir copi o'n penderfyniad hefyd at y plenty a chyfaill achos y plentyn os oes ganddynt un.

Beth arall ddylwn i ei wneud?

Hyd yn oed os ydych yn apelio dylech siarad â'ch Awdurdod Lleol igeisio dod i gytundeb. Mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol fod â **Gwasanaethau Datrys Anghytundebau** annibynnol (GDA). Mae'r gwasanaeth yn ymdrin ag anghydfodau rhwng rhieni, yr Awdurdod Lleol ac ysgolion mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'n rhaid i'ch Awdurdod Lleol ddarparu gwybodaeth am sut i gael mynediad at ei Wasanaeth Datrys Anghytundebau annibynnol.

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r Gwasanaethau Datrys Anghytundebau ar ôl i apêl gael ei chofrestru gallwch wneud cais I lywydd y Tribiwnlys i atal yr apêl am gyfnod o amser. Gallech, er enghraifft ddymuno atal yr apêl yn ystod y cyfnod y bydd cyfarfodydd y Gwasanaethau Datrys Anghytundebau yn cael eu cynnal.

Mae'n ddefnyddiol rhoi gwybod i ni am unrhyw gytundebau y gallech chi a'r Awdurdod Lleol eu llunio. Os ar unrhyw adeg y byddwch yn penderfynu nad ydych am barhau â'ch apêl, bydd angen i chi anfon e.bost neu ysgrifennu atom i ddweud wrthym eich bod yn tynnu'r apêl yn ôl.

Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Dylai'r Awdurdod Lleol fod wedi dweud wrthy ch am y grwpiau canlynol y gallech fod yn cael cyngor ganddynt:

- sefydliad gwirfoddol sy'n helpu pobl ag anghenion arbennig,
- grŵp i rieni,
- cefnogwr rhieni annibynnol,
- cynghorydd partneriaeth gyda rheini.

Dylai'r Awdurdod Lleol hefyd fod wedi dweud wrthy ch am ei swyddog penodol y gallwch weithio gydag ef/hi i geisio datrys y materion yr ydych yn apelio yn eu herbyn. Gall y grwpiau uchod a'ch swyddog Awdurdod Lleol eich rhoi mewn cysylltiad â chefnogwr annibynnol neu gynrychiolydd.

Efallai y bydd gennych hawl i gael cyllid Cymorth Cyfreithiol (neu gyhoeddus) ar gyfer cael cymorth wrth baratoi eich apêl. Bydd cyfreithiwr yn gallu eich cynghori ynghylch a oes gennych hawl i hyn. Bydd Cymdeithas y Gyfraith neu eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol yn gallu rhoi enwau cyfreithwyr i chi sy'n cymryd rhan yn y cynllun Cymorth Cyfreithiol ac sy'n brofiadol yn y materion hyn. Ni fyddwch yn gallu cael arian cyhoeddus ar gyfer cyfreithiwr i'ch cynrychioli yn y gwrandawriad.

Faint o amser mae hyn i gyd yn ei gymryd?

Mae'r broses o apelio, o'r adeg y byddwn yn derbyn eich apêl at pryd y cynhelir y gwrandawriad ac y gwneir penderfyniad, fel arfer yn cymryd pedwar i bum mis. Gallai gymryd mwy o amser gan ddibynnu ar y math o achos a pha mor gymhleth ydyw.

A oes rhaid i mi dalu unrhyw beth?

Nid yw TAAAC yn codi tâl am y gwasanaeth hwn.

Cam 2 – gwneud apêl

Terfynau amser

Mae **terfyn amser o ddau fis** ar gyfer apelio atom ni. Rhaid i ni dderbyn eich apêl heb fod yn hwyrach na dau fis o'r dyddiad pan hysbysodd yr Awdurdod Lleol chi mewn llythyr am ei benderfyniad terfynol.

Os ydych yn defnyddio Gwasanaeth Datrys Anghytundebau (GDA) neu os cewch eich cyfeirio ato cyn y daw'r ddau fis i ben, yna gallai'r terfyn amser ar gyfer gwneud apêl gael ei ymestyn. Mae'n rhaid i'ch Awdurdod Lleol ddarparu gwybodaeth am sut i gael mynediad at ei Wasanaeth Datrys Anghytundebau annibynnol. Mae'n bwysig eich bod yn gofyn I TAAAC am yr estyniad cyn i'r terfyn amser o ddau fis ddod i ben.

Pwy sy'n gallu gwneud apêl?

Ar hyn o bryd dim ond rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am y plentyn o fewn diffiniad Deddf Addysg 1996, sy'n gallu gwneud apêl.

Mae eithriad i'r rheol hon. Gellir gwneud yr apêl gan y plentyn neu gan gyfaill achos ar ran y plentyn. Mae'n rhaid i gyfeillion achos gyflwyno ffurflen datganiad. Ceir gwybodaeth am rôl cyfaill achos a chopi o'r ffurflen datganiad yn ein Pecyn Gwybodaeth a'r Ffurflenni i Blant, Rhieni a Chyfeillion Achos.

Sut y dylwn i apelio?

Er mwyn gwneud apêl mae'n rhaid i chi lenwi ac anfon **Cais am Apêl** at TAAAC. Gellir anfon ceisiadau atom yn y post neu drwy e-bost. Dylai Cais am Apêl fod ynghlwm wrth y llyfryn hwn neu gallwch gael lawr lwytho copi o wefan TAAAC. Cysylltwch â ni os hoffech i ni anfon copi o'r Cais am Apêl atoch.

Beth sydd angen i mi ddweud wrthy ch amdano?

Defnyddiwch yr adran hon fel rhestr wirio ar gyfer pan fyddwch yn cwblhau eich Cais am Apêl.

Mae'n rhaid i chi roi'r wybodaeth ganlynol ar y **Cais am Apêl**:

Adran 1, Gwybodaeth am y plentyn

Mae'r adran hon yn gofyn am fanylion am y plentyn neu'r person ifanc y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

Adran 2, Gwybodaeth am y person sy'n gwneud yr apêl

Mae'r adran hon yn gofyn am eich manylion chi.

Adran 3, gwybodaeth am bobl sydd â neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant am y plentyn

Mae'r adran hon yn gofyn am fanylion unrhyw un sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant am y plentyn. Os oes rheswm da dros beidio â darparu'r wybodaeth hon dywedwch wrthym.

Adran 4, Gwybodaeth am eich cynrychiolydd

Mae'r adran hon yn gofyn am fanylion cyswllt eich cynrychiolydd, os oes gennych un.

Adran 5, Dywedwch wrthym pwy ydych chi am iddo dderbyn gwybodaeth am yr Mae'r adran hon yn gofyn i chi dicio blwch i ddweud wrthym pwy ydych chi am iddo dderbyn gwybodaeth am yr apêl. Gallwn anfon gwybodaeth at un person yn unig.

Adran 6, Dywedwch wrthym am y llythyr penderfyniad oddi wrth yr Awdurdod Lleol Mae'r adran hon yn gofyn i chi ddweud wrthym enw eich Awdurdod Lleol a dyddiad y llythyr a gawsoch gan yr Awdurdod Lleol yn dweud wrthyfych am ei benderfyniad terfynol.

Adran 7, Dywedwch wrthym os yw'r Awdurdod Lleol wedi gwneud datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig eich plenty. Mae'r adran hon yn gofyn i chi ddweud wrthym os oes gan eich plentyn ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig a'r dyddiad y llofnodwyd y datganiad gan yr Awdurdod Lleol.

Adran 8, Dywedwch wrthym beth rydych yn apelio yn ei erbyn Mae'r adran hon yn gofyn i chi nodi pa benderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn.

Adrannau 9 a 10, Os yw'r apêl yn ymwneud â'r ysgol a enwir yn y datganiad mae angen i chi lenwi'r adran hon os yw'r apêl yn ymwneud â'r ysgol a enwir yn y datganiad yn unig. Mae'r adran hon yn gofyn i chi ddweud wrthym enw a chyfeiriad yr ysgol y byddai'n well gennych iddi gael ei henwi yn y datganiad. Mae hefyd yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi dweud wrth yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr ysgol a Phennaeth neu berchennog yr ysgol eich bod wedi gofyn i'r ysgol gael ei henwi yn y datganiad.

Adran 11, Dywedwch wrthym am eich rhesymau dros apelio mae'r adran hon yn gofyn i chi roi rhesymau pam yr ydych yn apelio. Dyma eich 'sail am apelio'. Nid oes raid i'ch rhesymau fod yn hir nac wedi'u hysgrifennu mewn iaith gyfreithiol, ond y mae angen i chi ddweud mwy na dim ond, 'Rwy'n anghytuno'. Dylech esbonio pam rydych yn anghytuno â'r penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn a'r hyn yr ydych yn gofyn i ni ei wneud.

Yn dibynnu ar destun eich apêl efallai y byddech yn dymuno sôn am y canlynol:

- pam y credwch nad yw eich plentyn yn gwneud cynnydd,
- pam eich bod yn meddwl bod ar eich plentyn angen cymorth ychwanegol yn yr ysgol,
- pa fath o gymorth ychwanegol ydych chi'n meddwl bod ar eich plentyn ei angen,
- os oes gan eich plentyn ddatganiad, pa newidiadau yr ydych yn dymuno eu gweld,
- os ydych am i'ch plentyn fynd i ysgol wahanol, pam y credwch y bydd yr ysgol honno yn bodloni anghenion eich plentyn yn well.

Os oes gennych wybodaeth neu dystiolaeth sy'n cefnogi eich apêl, dylech ei chynnwys pan fyddwch yn anfon eich apêl.

Adran 12, Dywedwch wrthym am y camau a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod, os cymerwyd rhai o gwbl, Mae'r adran hon yn gofyn i chi ddweud wrthym am unrhyw gyfarfodydd a gawsoch gyda'r Awdurdod Lleol i geisio datrys yr anghydfod. Os nad ydych wedi manteisio ar y Gwasanaeth Datrys Anghytundebau (GDA) bydd yn ddefnyddiol i chi roi eich rhesymau pam.

Adran 13, Hawliadau am wahaniaethu ar sail anabledd
Mae'r adran hon yn gofyn a oes gennych hawliad am wahaniaethu ar sail anabledd gerbron y Tribiwnlys ar hyn o bryd neu a hoffech gael mwy o wybodaeth am sut i wneud hawliad am wahaniaethu ar sail anabledd.

Adran 14, Gwybodaeth Monitro
Defnyddir y wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon ar gyfer monitro ac ystadegau.

Adran 15, Eich llofnod
Yr adran hon yw lle mae'n rhaid i chi lofnodi'r ffurflen. Gall eich cynrychiolydd lofnodi'r ffurflen ar eich rhan os ydych wedi rhoi caniatâd iddo wneud hynny. Mae'n rhaid l ffurflenni a anfonir drwy e-bost gynnwys llofnod electronig.

Adran 16, Anfon y Cais am Apêl atom ni.
mae'r adran hon yn darparu cyfeiriadau post ac e-bost TAAAC.

Pa ddogfennau y dylwn i eu hanfon gyda'r Cais am Apêl?

Defnyddiwch yr adran hon fel rhestr wirio ar gyfer yr adeg pan fyddwch yn anfon eich Cais am Apêl.

Ym mhob achos, bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- llythyr yn cadarnhau eich bod wedi dweud wrth yr holl bobl a sefydliadau sydd wedi neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu wedi gofalu am y plentyn, eich bod yn bwriadu gwneud apêl, **NEU**
- llythyr gan roi'r rhesymau pam nad ydych wedi hysbysu pob person neu wedi peidio â darparu enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau,
- y dogfennau y byddwch yn dibynnu arnynt i gefnogi eich apêl.

Os yw'r apêl yn ymwneud â'r ysgol yr ydych am iddi gael ei henwi yn y datganiad, rhaid i chi anfon atom naill ai:

a) If Os yw'r ysgol yn cael ei chynnal (ei hariannu) gan yr Awdurdod Lleol:

- copi o'ch llythyr at Bennaeth yr ysgol yn dweud y byddech yn hoffi i'r ysgol gael ei henwi yn y datganiad, **a**
- copi o'ch llythyr at yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am gynnal (cyllido) yr ysgol yn dweud y byddech yn hoffi i'r ysgol gael ei henwi yn y datganiad, **NEU**

b) If Os yw'r ysgol yn ysgol annibynnol (ysgol nad yw'n cael ei hariannu gan yr Awdurdod Lleol) neu yn ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal:

- copi o'r llythyr o'r ysgol yn cadarnhau bod lle ar gael ar gyfer y plentyn.

A oes rhaid i mi anfon dogfennau gwreiddiol?

Gofalwch fod unrhyw ddogfennau a anfonwch atom yn llungopïau o'r gwreiddiol.

A oes rhaid i mi anfon y Cais am Apêl fy hun?

Nac oes, ond mae'n rhaid i'r Cais am Apêl gael ei lofnodi gennych chi (hynny yw'r person sy'n gwneud y Cais am Apêl) neu eich cynrychiolydd ar eich rhan os ydych wedi rhoi caniatâd iddo wneud hynny.

Cofiwch na fyddwn yn anfon gwybodaeth am yr apêl ond at y person enwebedig a enwir ar y Cais am Apêl. Bydd angen i chi dicio un o'r blychau ar y Cais am Apêl i ddweud wrthym pwy ydych chi'n ei ddewis I dderbyn gwybodaeth am yr apêl. Os nad ydych yn ticio blwch, byddwn yn anfon y wybodaeth at y person a enwir gyntaf.

Os oes gennych gynrychiolydd a'ch bod am iddynt dderbyn yr holl lythyrau a phapurau ar gyfer yr apêl ar eich rhan, dylech roi ei enw a'l gyfeiriad ar y Cais am Apêl.

Os ydych yn dweud ar y Cais am Apêl bod eich cynrychiolydd yn mynd I dderbyn yr holl bapurau, ni fyddwch yn derbyn unrhyw ohebiaeth mewn cysylltiad â'ch apêl cyn y gwrandawriad. Yn hytrach, byddwn yn ei hanfon i gyd at eich cynrychiolydd. Ond byddwn yn anfon y penderfyniad terfynol pan gaiff ei gyhoeddi atoch chi.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig os byddwch yn penderfynu peidio â defnyddio eich cynrychiolydd neu os bydd manylion eich cynrychiolydd yn newid.

Alla' i anfon y Cais am Apêl drwy e-bost?

Rhaid i Geisiadau am Apêl sy'n cael eu hanfon drwy e-bost gynnwys llofnod electronig y rhiant sy'n gwneud yr apêl neu, os rhoddir caniatâd, llofnod electronig ei gynrychiolydd.

Cam 3 – wedi inni dderby eich Apêl

Beth sy'n digwydd ar ôl i ni dderbyn eich Cais am Apêl?

Byddwn yn cofrestru eich apêl cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn eich ffurflen ac yn anfon copi i'r Awdurdod Lleol.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi pan fydd eich apêl yn cael ei gofrestru ac yn rhoi gwybod hefyd ichi pryd y bydd angen ichi anfon eich datganiad achos a'ch ffurflen bresenoldeb. Byddwch yn cael cyfnod o 30 o ddiwrnodau gwaith i gyflwyno eich datganiad achos a'ch ffurflen bresenoldeb.

Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom cyn y gallwn gofrestru eich apêl.

Beth fydd yr Awdurdod Lleol yn ei wneud ynglŷn â fy apêl?

Mae eich datganiad achos yn gyfle i chi anfon rhagor o wybodaeth atom. Gall hyn fod yn unrhyw wybodaeth a thystiolaeth y dymunwch i ni edrych arni fel rhan o'ch apêl.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol baratoi ymateb a'i anfon i'r Tribiwnlys cyn pen 30 o ddiwrnodau gwaith o dderbyn yr apêl.

A oes rhaid i mi wneud datganiad achos?

Oes, fel isafswm rhaid i chi anfon y wybodaeth ganlynol atom fel rhan o'ch datganiad achos.

Mae'n rhaid i'ch datganiad achos gynnwys:

- farn y plentyn am y materion sy'n ymwneud â'r apêl, **neu**
- y rhesymau pam na ddarparwyd y safbwyntiau.

Mae'n ofyniad yn ôl rheoliadau'r Tribiwnlys fod barn y plentyn neu'r rhiant, yn dibynnu ar bwy sydd wedi gwneud yr apêl, yn cael eu darparu. **Bydd panel y tribiwnlys yn disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys yn eich datganiad achos oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.**

Beth fydd yr Awdurdod Lleol yn ei wneud ynglŷn â fy apêl?

Rhaid i'r Awdurdod Lleol baratoi ymateb a'i anfon i'r Tribiwnlys cyn pen 30 o ddiwrnodau gwaith o dderbyn yr apêl.

Beth os na fydd yr Awdurdod Lleol yn ymateb?

Os na fydd yr Awdurdod Lleol yn anfon ymateb erbyn diwedd yr amserlen a ganiateir, bydd eich apêl yn cael ei drosglwyddo i Gadeirydd y Tribiwnlys a fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Gallai hyn gynnwys gwrthod caniatáu i Awdurdod Lleol barhau i gymryd rhan yn y trafodion.

Beth sy'n digwydd i'r datganiad achos?

Unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer anfon datganiadau achos wedi mynd heibio, byddwn yn anfon copi o'r holl bapurau a gawsom am yr apêl atoch chi a'r Awdurdod Lleol.

Os yw'r achos yn mynd i wrandawriad, bydd panel y tribiwnlys yn ystyried y datganiadau achos ac unrhyw ddogfennau eraill a ddarperir gennych chi a'r Awdurdod Lleol, ynghyd â'r dystiolaeth y bydd yn ei clywed, er mwyn gwneud penderfyniad am eich apêl.

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n dymuno tynnu'r apêl yn ôl?

Os byddwch yn penderfynu nad ydych am barhau â'r apêl, gallwch ei thynnu'n ôl yn ystod unrhyw gam yn y broses. I dynnu eich apêl yn ôl, mae angen i chi ddweud hyn wrthym yn ysgrifenedig, trwy e-bost neu mewn llythyr.

Cam 4 – mynd i'r gwrandawriad

Ceir clip fideo ar ein gwefan sy'n dangos i chi beth i'w ddisgwyl mewn gwrandawriad: <https://tribiwnlysanghenionaddysgolarbennig.llyw.cymru/tribiwnlys-aled>

Pryd y byddwch yn dweud wrthyf am y dyddiad ar gyfer y gwrandawriad?

Os yw eich Apêl yn ymwneud â Gwrthod Asesu, ni fydd gofyn i chi fod yn bresennol mewn gwrandawriad llafar, bydd y Tribiwnlys yn gwneud Penderfyniad am eich apêl ar sail y papurau y byddwch chi a'r Awdurdod Lleol wedi eu cyflwyno. Gelwir hyn yn Wrandawriad Papur. Os byddwch yn teimlo bod angen gwrandawriad llafar, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi tic yn y blwch cywir i wneud cais am wrandawriad llafar ar eich Ffurflen Gais am Apêl.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi ar ba ddyddiad a faint o'r gloch y cynhelir y gwrandawriad.

Ble fydd fy ngwrandawriad yn cael ei gynnal?

Rydym yn cynnal gwrandawriadau ledled Cymru a byddwn yn ceisio cynnal eich gwrandawriad chi o cwplw o oriau o bellter teithio o'ch cartref. Rydym fel arfer yn cynnal gwrandawriad mewn adeiladau cyhoeddus, fel gwestai. Bydd y gwrandawriad ei hun mewn ystafell breifat.

Rydym yn defnyddio lleoliadau sy'n gwbl hygyrch i ddefnyddwyr anabl. Gadewch i ni wybod os oes gennych unrhyw anghenion penodol.

Pryd fydd fy ngwrandawriad yn dechrau a pha mor hir y bydd yn para?

Bydd eich gwrandawriad ar amser penodol sydd fel arfer yn 10:00 yn y bore. Dylech anelu at gyrraedd o leiaf 30 munud cyn i'r gwrandawriad ddechrau. Mae gwrandawriadau fel arfer yn cymryd trwy'r dydd ond nid ydynt fel arfer yn mynd ymlaen ar ôl 5:00 yn y prynhawn.

Pwy fydd yn gwrando fy apêl?

Gwrandawir ar eich apêl gan grŵp o dri aelod Tribiwnlys. Rydym yn galw'r bobl hyn yn banel y tribiwnlys. Mae un person ar y panel yn gyfreithiwr a fydd yn cadeirio'r gwrandawriad. Mae gan y ddau aelod arall wybodaeth arbenigol a phrofiad o blant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac anabled.

A oes rhaid i mi ddod i'r gwrandawriad?

Nid oes rhaid i chi ddod i'r gwrandawriad, ond byddai'n fuddiol pe baech yn dod. Bydd y panel yn dymuno clywed beth sydd gennych chi i'w ddweud am eich apêl ac efallai y bydd ganddynt rai cwestiynau i'w gofyn i chi hefyd. Efallai yr hoffech chi hefyd ofyn cwestiynau.

Pwy arall y gallaf i ddod â nhw i'r gwrandawriad?

Eich cynrychiolydd

Gallwch gael rhywun yn y gwrandawriad i'ch cynrychioli os ydych yn dod eich hun ai peidio. Nid oes rhaid i'r unigolyn hwnnw fod yn gyfreithiwr.

Rhieni'r plentyn

Gallai rhiant neu unigolyn â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ddod i'r gwrandawriad, hyd yn oed os mai nid nhw sy'n gwneud yr apêl.

Eich plentyn

Gallai eich plentyn ddod i'r gwrandawriad a siarad â'r panel a rhoi tystiolaeth os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae'n debygol y bydd y panel yn awyddus i siarad â'ch plentyn chi am ran o'r gwrandawriad yn unig. Mae'n rhaid i chi drefnu i rywun ddod draw a allai ofalu am eich plentyn pan nad yw yn y gwrandawriad. **Ni fydd staff y tribiwnlys yn gallu edrych ar ôl eich plentyn ac efallai na fydd lle addas yn yr adeilad iddo dderbyn gofalu gan y person sy'n gofalu amdano.**

Rhywun i roi cefnogaeth

Gallwch ddod ag un person gyda chi i'ch cefnogi. Bydd hwnnw yn gallu dod i mewn i'r gwrandawriad, ond ni fydd yn gallu cymryd rhan yn y gwrandawriad na chymryd nodiadau yn ystod y gwrandawriad.

Tystion

Gallwch ddod â hyd at ddau dyst i'r gwrandawriad.

Gallai dewis pwy sydd i ddod fel tystion yn y gwrandawriad fod yn anodd. Dylai'r tystion a ddewiswch fod yn gallu trafod prif faterion eich apêl fel y maent yn ymwneud yn benodol â'ch plentyn. Mae'n rhaid i dystion ddisgwyl ateb cwestiynau am eu tystiolaeth. Bydd arnynt angen gwybodaeth dda am y ffeithiau a'r rhesymeg y tu ôl i'r wybodaeth y maent yn ei rhoi.

Dylid gofyn i unrhyw dyst arbenigol roi tystiolaeth gyda'r bwriad o gynorthwyo'r Tribiwnlys gyda'u barn broffesiynol yn hytrach na dim ond cefnogi eich achos. Gallai tystiolaeth arbenigol sy'n ymddangos yn rhagfarnllyd golli hygredd.

Eiriolwr

Gallwch ddod â rhywun i gyfleu barn a dymuniadau'r plentyn gyda chi.

Pwy allai'r Awdurdod Lleol ddod gyda nhw i'r gwrandawriad?

Gall yr Awdurdod Lleol fynychu'r gwrandawriad a dod â chynrychiolydd, sy'n gymwys yn gyfreithiol neu ddim, i'r gwrandawriad. Gallant hefyd alw hyd at ddau dyst i'r gwrandawriad, dod â sylwedydd ac eiriolwr. Fel chi, bydd yn rhaid iddyn nhw hefyd lenwi ffurflen presenoldeb. Byddwn yn ysgrifennu atoch cyn y gwrandawriad i gadarnhau pwy sy'n dod i'r gwrandawriad.

Pa dreuliau y gellir eu hawlio?

Gallwch chi a'ch tystion hawlio costau teithio i ddod i'r gwrandawriad. Os ydych yn dod â ffrind neu berthynas i ofalu am eich plentyn, byddwch yn gallu hawlio eu costau teithio nhw hefyd.

Dylech ddefnyddio cludiant cyhoeddus lle bo modd (teithio ar y bws, tram, trê'n dosbarth safonol). Os ydych yn teithio mewn car, gallwch hawlio swm penodol am filltiroedd. Byddwn yn talu costau tacsî dim ond os nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael, neu os oes gennych anghenion penodol. (Rhaid i chi ddweud wrthym am y rhain cyn hawlio eich treuliau). Bydd angen i ni awdurdodi unrhyw gostau tacsî ymlaen llaw. Ni allwn dalu am barcio ceir a thollau.

Gall eich tystion hawlio swm penodol am golli enillion hefyd. Gallwch ofyn i ni am ffurflen ar gyfer treuliau drwy gysylltu â ni neu gallwch lawrlwytho copi o'n gwefan.

Cam 5 – penderfyniad y Tribiwnlys

Pryd fydda' i yn gwybod penderfyniad y Tribiwnlys?

Dylech dderbyn y penderfyniad ysgrifenedig a'r rhesymau drwy'r post o fewn tua 10 diwrnod gwaith o'r gwrandawriad. Byddwn yn anfon y penderfyniad atoch chi, eich cynrychiolydd os oes gennych un, ac at yr Awdurdod Lleol.

Faint o amser sydd gan yr Awdurdod Lleol i wneud y gorchymyn?

Os bydd y Tribiwnlys yn cytuno â'ch apêl mae ganddo'r pŵer i wneud gorchymyn. Rhaid i'r Awdurdod Lleol gyflawni ein gorchymyn o fewn cyfnod penodol yn dechrau o'r adeg y cafodd y penderfyniad ei gyhoeddi.

- i gynnal asesiad neu ail-asesu - o fewn pum wythnos,
- i wneud datganiad - o fewn pum wythnos,
- i newid y datganiad - o fewn pum wythnos,
- i newid yr ysgol a enwir yn unol â dymuniadau'r rhieni - o fewn pythefnos,
- i barhau datganiad - ar unwaith,
- i ddileu (rhoi'r gorau i gynnal) datganiad - ar unwaith.

Mae'r amserlenni hefyd yn berthnasol pan fo'r Awdurdod Lleol yn dweud wrthym nad ydynt yn gwrthwynebu'r apêl. Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn cadw at y gorchymyn o fewn yr amser a ddywedwn, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud cais i'r Uchel Lys i'w orfodi.

Beth os na fydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r penderfyniad?

Os na fydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud yr hyn y byddwn yn ei orchymyn o fewn yr amserlen a bennir, ac os na allant roi eglurhad derbynol am hynny, bydd hawl gennych gwyno wrth yr Adran Addysg a Sgiliau. Y cyfeiriad yw:

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gallwch hefyd wneud cwyn i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus:

Cyfeiriad:	Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus 1 Ffordd yr Hen Gae Pencoed, CF35 5LJ
E-bost:	www.ombudsman-wales.org.uk
Tîm Cynghori:	01656 641199

Beth alla' i ei wneud os nad wyf yn hapus am eich penderfyniad?

Mae ein penderfyniad yn derfynol. Os ydych yn credu bod problem dechnegol gyda'r penderfyniad a sut y cafodd ei wneud, gallwch ofyn i ni ei adolygu. Ni fyddwn yn adolygu ein penderfyniad oherwydd nad ydych yn hapus ag ef yn unig. Rhaid i ni dderbyn eich cais ysgrifenedig I adolygu o fewn 28 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr a anfonwyd gyda'r penderfyniad.

Os ydych yn credu bod y penderfyniad yn anghywir yn ôl y gyfraith, gallwch apelio i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys, ond mae'n rhaid i chi wneud cais i ni am ganiatâd i apelio yn gyntaf. Rhaid I chi wneud eich cais fel y byddwn yn ei dderbyn o fewn 28 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr a anfonwyd gyda'r penderfyniad.

Canllaw cyflym i brif gamau'r apêl

Cam 1 – penderfynu a ddylid gwneud apêl

Gallwch apelio yn erbyn rhai penderfyniadau yn unig:

- Gwrthod asesu neu ailasesu,
- Gwrthod datganiad,
- Cynnwys y datganiad terfynol,
- Dileu'r datganiad,
- Gwrthod diwygio'r datganiad ar ôl ailasesiad,
- Gwrthod newid ysgol a enwir yn y datganiad (dim ond pan ofynnir am ysgol a ariennir gan yr ALI, mae'r datganiad o leiaf yn 1 mlwydd oed ac na wnaed cais blaenorol yn ystod y 12 mis diwethaf).

Cam 2 – gwneud apêl

- Bydd angen i chi gwblhau Cais am Apêl.
- Rhaid i'ch Cais am Apêl gael ei dderbyn yn swyddfa TAAAC yn ddim hwyrach na 2 fis, gan ddechrau o'r dyddiad pan ddywedodd yr Awdurdod Lleol wrthy'ch am ei benderfyniad terfynol mewn llythyr.
- Os gallwn ddelio gyda'ch apêl, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthy'ch ein bod wedi ei chofrestru.
- Byddwn hefyd yn anfon copi o'ch cais am apêl at yr ALI.
- Os na allwn ymdrin â'ch apêl byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthy'ch pam.

Cam 3 – cwblhau fy natganiadau achos

- Unwaith y byddwn wedi cofrestru eich apêl, byddwn yn rhoi 30 diwrnod gwaith i chi a'r Awdurdod Lleol adael i ni gael mwy o wybodaeth a thystiolaeth yn ymwneud â'ch apêl. Rydym yn galw hyn yn ddatganiad achos.
- Mae'n rhaid i chi wneud datganiad achos a chynnwys o leiaf:
 - farn y plentyn am y materion sy'n ymwneud â'r apêl, neu
 - y rhesymau pam na ddarparwyd y safbwyntiau.
- Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn anfon datganiad achos neu os nad yw'n gwrthwynebu'r apêl, yna efallai na fyddant yn gallu cymryd unrhyw ran bellach yn yr apêl,
- Ar ddiwedd y datganiad achos, byddwn yn anfon copi o bopeth yr ydym wedi ei dderbyn atoch chi a'r Awdurdod Lleol.

Cam 4 – mynd i'r gwrandawriad

- Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthyich beth yw dyddiad y gwrandawriad,
- Caniateir i chi gael cynrychiolydd, hyd at 2 dyst, cefnogwr a rhywun i ddweud wrthym am farn a dymuniadau'r plentyn yn y gwrandawriad,
- Cynhelir gwrandawriadau fel arfer mewn gwestai, ni ddylai'r daith o'ch cartref i'r gwrandawriad gymryd mwy nag ychydig o oriau,
- Mae gwrandawriadau fel arfer yn dechrau am 10am ac yn para drwy'r dydd,
- Bydd clerc o'r Tribiwnlys yn eich cyfarfod ac yn dangos i chi ble i fynd,
- Bydd grwp o dri o bobl o'r Tribiwnlys yn y gwrandawriad hefyd. Rydym yn galw'r bobl hyn yn banel y tribiwnlys,
- Bydd panel y tribiwnlys yn dymuno gofyn i chi a'r Awdurdod Lleol am eich achos, beth yn eich barn chi yw'r ffeithiau perthnasol a pha newidiadau yr ydych yn dymuno eu gwneud,
- Bydd panel y tribiwnlys yn dymuno sicrhau hefyd bod unrhyw dystion yn y gwrandawriad i siarad am eu tystiolaeth.
- Byddwch chi a'r Awdurdod Lleol yn cael cyfle i ofyn cwestiynau,
- Ar ddiwedd y gwrandawriad bydd gennych gyfle i roi eich sylwadau clo.

Cam 5 – penderfyniad y Tribiwnlys

- Byddwn fel arfer yn anfon ein penderfyniad atoch o fewn 10 diwrnod gwaith o'r gwrandawriad,
- Os ydym yn cytuno â'ch apêl, gallwn wneud gorchymyn yn erbyn yr Awdurdod Lleol,
- Ni allwn orchymyn iawndal ariannol,
- Os byddwn yn anghytuno â'ch apêl byddwn yn ei gwrthod ac ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau pellach,
- Mae ein penderfyniad yn derfynol. Os ydych yn credu bod gwall technegol gallwch ofyn i ni ei adolygu. Os ydych yn credu ein bod yn anghywir ar bwynt cyfreithiol gallwch ofyn i ni am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Mae terfynau amser ar gyfer y gweithdrefnau hyn.